LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# MANIFFESTO MANIFESTO 56

## CYLCHLYTHYR YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

## THE WELSH POLITICAL ARCHIVE NEWSLETTER

ADOLYGIAD / REVIEW OF 2024–2025



# STAFF YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE STAFF



## Rob Phillips

**Archifydd: Yr Archif Wleidyddol Gymreig**
Archivist: The Welsh Political Archive



## Rhys Davies

**Archifydd Cynorthwyol: Yr Archif Wleidyddol Gymreig**
Assistant Archivist: The Welsh Political Archive



## Miidong Daloeng

**Archifydd Cynorthwyol: Cymunedau a Mynediad**
Assistant Archivist: Communities and Access

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE ADVISORY COMMITTEE

Yr Athro/Professor Roger Awan-Scully

Dr Denis Balsom

Yr Athro Emeritws/Emeritus Professor Deirdre Beddoe

Mr Meic Birtwistle

Dr Sam Blaxland

Nia Daniel

Yr Athro/Professor Russell Deacon

Mr Darron Dupre

Yr Athro/Professor Andrew Edwards

Dr Aled Eirug

Mr Rhys Evans

Rhian Gibson

Mr Gwyn Griffiths

Syr/Sir Deian Hopkin

Mr Gareth Howells

Ms Sian James

Mr Gwyn Jenkins

Yr Athro/ Professor Angela John

Mr Gwynoro Jones

Yr Athro/Professor Richard Wyn Jones

Dr Gwenllian Lansdown Davies

Mr Darren Millar

Arglwydd/Lord Kenneth O Morgan

Dr Owen Roberts

Dr Owain Roberts

Arglwydd/Lord Ted Rowlands

Ms Jane Runeckles

Syr/Sir Paul Silk

Dr Guto Thomas

Ms Mary Thorley

Ms Sian Williams

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

**Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofnodion a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; gwefannau a thapiau o raglenni radio a theledu. Ni chyfyngir ei gweithgareddau i un adran o fewn y Llyfrgell.**

**Yn unol â Pholisi Datblygu Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn casglu papurau personol gwleidyddion sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl ac unigolion sydd â phroffil uchel oherwydd eu gwaith ymgyrchu ar faterion cenedlaethol neu ryngwladol.**

**Rydym yn casglu:**

- **papurau Aelodau Senedd y DU, Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Senedd Ewrop ac Arglwyddi os ydynt, er enghraifft, wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol, arweinydd plaid wleidyddol, gweinidog, cadeirydd pwyllgor blaenllaw; nid ydym fel arfer yn casglu papurau etholaethol na phapurau aelodau etholedig eraill**
- **archifau cenedlaethol pleidiau gwleidyddol**
- **archifau carfanau pwyso cenedlaethol, a grwpiau sy'n ymgyrchu ar faterion gwleidyddol o bwys cenedlaethol**
- **effemera etholiadol o bob etholaeth yng Nghymru ar gyfer etholiadau a refferenda cenedlaethol.**

**Mae gwaith yr Archif Wleidyddol Gymreig yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig, sy'n cwrdd unwaith y flwyddyn.**

The Welsh Political Archive was set up in 1983 to co-ordinate the collection of documentary evidence of all kinds about politics in Wales. It collects the records and papers of political parties, politicians, quasi-political organisations, campaigns and pressure groups; leaflets, pamphlets and other printed ephemera; posters and photographs; websites and tapes of radio and television programmes. Its work is not restricted to a specific department within the Library.

In accordance with the National Library of Wales' Collection Development Policy, the Welsh Political Archive collects the personal papers of politicians who have played an important role in the life of the nation and individuals with a high profile for campaigning on national or international issues.

We collect:

- the papers of Members of the UK Parliament, Members of the Senedd, Members of the European Parliament and Lords if they have for example held positions such as Secretary of State, party leader, minister, senior committee chair; we do not usually collect the papers of other elected members or constituency papers
- the national archives of political parties
- archives of national pressure groups and groups which campaign on national issues
- election ephemera from all constituencies in Wales for national elections and referenda.

The work of the Welsh Political Archive is guided by the Welsh Political Archive Advisory Committee which meets once a year.



# DERBYNIADAU NEWYDD
# NEW ACQUISITIONS

**Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi llwyddo i dderbyn nifer o archifau diddorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

The Welsh Political Archive has been successful in acquiring a number of interesting archives during the past year.

## LEANNE WOOD


Ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth cyn-arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, gyfrannu dau focs o archifau sy'n cynnwys nodiadau areithiau, gohebiaeth, dogfennau polisi a phapurau gwleidyddol eraill.

**Leanne Wood Papers.**

## LEANNE WOOD

Former Plaid Cymru leader Leanne Wood donated two boxes of archives containing speech notes, correspondence, policy documents and other political papers in March 2025.

**Leanne Wood Papers.**


HOMOPHOBIA

I must say when I first read this amendment I was shocked at its bigotry. This amendment reflects an old fashioned point of view, which in my opinion has no place whatsoever in Plaid Cymru - the party of Wales.

This amendment is obviously homophobic. That in itself is bad enough. But not only that - it shows an intolerance to heterosexual parents who are living together and it is attack on single parents. It is also an attack on children living in such family units.

This amendment shows incredible intolerance and it opens the door for persecution of gay men and lesbians.

Legalisation of cannabis

Cannabis can be harmful if smoked with tobacco, but there are many less harmful ways to take the drug. Unless the drug is decriminalised, people with illnesses and disability are criminalised every time they use it.

**Leanne Wood Papers**

## COF SEFYDLIADOL LLYWODRAETH CYMRU

Ym mis Mawrth 2025, cyfrannwyd trawsgrifiadau o 10 digwyddiad a gynhaliwyd gan Grŵp Cof Sefydliadol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cyfweliadau â Carwyn Jones, Mark Drakeford, Kirsty Williams, Elin Jones, Jon Shortridge ac eraill am eu hatgofion o weithio o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y ffeiliau digidol ar gael o bell trwy gatalog LIGC.

**Welsh Government Institutional Memory Archive.**

## WELSH GOVERNMENT INSTITUTIONAL MEMORY

Transcripts of 10 events held by the Welsh Government's Institutional Memory Group comprising interviews with figures such as Carwyn Jones, Mark Drakeford, Kirsty Williams, Elin Jones and Jon Shortridge on their memories of working within the Welsh Government were donated in March 2025. The digital files will be made available remotely via the NLW catalogue.

**Welsh Government Institutional Memory Archive.**

## YMGYRCH DROS GOLEG GWERIN CENEDLAETHOL


**Yn gynnar yn 2025, fe wnaeth Geraint Lewis Jones gyfrannu archif o bapurau yn ymwneud â'r ymgyrch i sefydlu Coleg Gwerin Cenedlaethol yng Nghymru ar batrwm y colegau gwerin yn Sgandinafia a sefydlwyd ar sail gwaith Nicolai Gruntvig, ac mae'n cynnwys dogfennau am gyfansoddiad a gweledigaeth y coleg, codi arian, digwyddiadau, canghennau lleol a gohebiaeth ynghylch yr ymgyrch.**

**NLW ex 3127.**

## CAMPAIGN FOR A NATIONAL FOLK COLLEGE

In early 2025 Geraint Lewis Jones donated an archive of papers relating to the campaign to establish a National Folk College in Wales, on the model of the folk colleges in Scandinavia based on the work of Nicolai Gruntvig, which contains documents relating to the constitution and vision of the college, fundraising, events, local branches and correspondence relating to the campaign.

**NLW ex 3127.**



**NLW ex 3127**

## CYFWELIADAU HANES LLAFAR

**Fe wnaeth Mary Lindsay gyfrannu cyfres o gyfweliadau hanes llafar gyda Mr W. G. Thomas, a recordiwyd yn 1983, sy'n trafod ei 50 mlynedd o actifiaeth o fewn y Blaid Lafur, undebau llafur, a llywodraeth leol yng Nghwmbrân a'r Cwm Dwyreiniol.**

**Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

## ORAL HISTORY INTERVIEWS

A series of oral history interviews with Mr W. G. Thomas recorded in 1983 in which he discusses his 50 years of activism in the Labour Party, trades unions and local government in Cwmbran and the Eastern Valley were donated by Mary Lindsay.

**The National Library of Wales Screen and Sound Archive.**

## NICK POWELL

**Cafodd papurau Nick Powell, Pennaeth Gwleidyddiaeth ITV Cymru tan 2021, eu rhoi i'r Llyfrgell ym mis Medi 2024. Mae'r papurau'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud â threfnu cyfweliadau a rheoli gohebiaeth ar ddigwyddiadau gwleidyddol mawr yn ogystal â deunydd sy'n dangos natur helaeth ei gysylltiadau.**

**Nick Powell Papers.**

The papers of Nick Powell, Head of Politics at ITV Wales until 2021, were donated to the Library in September 2024. The papers include material relating to setting up interviews and managing reporting on major political events as well as material which show the extensive nature of his contacts.

**Nick Powell Papers.**

## CHWARAE TEG

**Cafodd cofnodion Chwarae Teg, 1992–2023, eu rhoi i'r Llyfrgell ar ôl i'r elusen ddod i ben ym mis Medi 2024. Dyma elusen a oedd yn cefnogi datblygiad economaidd menywod yng Nghymru. Mae hon yn archif hybrid sy'n cynnwys deunydd digidol a phapur.**

**Chwarae Teg Records.**

The records of Chwarae Teg, 1992–2023, the charity supporting the economic development of women in Wales, were donated to the Library following the charity's closure in September 2024. This is a hybrid archive comprising both digital and paper material.

**Chwarae Teg Records.**

## DARREN MILLAR

**Pan ymwelodd â'r Llyfrgell ym mis Hydref 2024, fe wnaeth Darren Millar, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, roi blwch o ddeunydd ymgyrchu a oedd yn cynnwys roséts, posteri a thaflenni.**

**Darren Millar Papers.**


## DARREN MILLAR

Leader of the Welsh Conservatives in the Senedd, Darren Millar, donated a box of campaign material including rosettes, posters and leaflets during his visit to the Library in October 2024.

**Darren Millar Papers.**


An Address by
His Holiness Pope Benedict XVI
To Members of Parliament and Civil Society in
WESTMINSTER HALL
In the Presence of
Mr Speaker and the Lord Speaker
Friday 17th September 2010


The Prince of Wales Advanced Study Awards in Music
A Recital by the Inaugural Scholars
Handel, Toccata
(Praeludium Toccata, tr. Grandjany)
Claire Jones, Harp
~
Bach, Largo ma non tanto
(Konzert für 2 violinen d-Moll BWV 1043)
Rhys Watkins, Violin; Benjamin Roskams, Violin
~
Mozart, Ach, ich fühl's
(Die Zauberflöte)
Elizabeth Donovan, Soprano
~
Mozart, Sull' aria
(Le Nozze di Figaro)
Caryl Hughes, Soprano; Melanie Gowie, Mezzo-soprano
~
Bernstein, One Hand, One Heart
(West Side Story)
Glesni Fflur, Soprano; Owain Llyr Williams, Tenor
~
Mathias, San Dance - Allegro molto ritmico
(Santa Fe Suite)
Claire Jones, Harp
With thanks to: The Arts Council of Wales
The Selection Panel: Einion Dafydd, Gillian Green, Geraint Lewis, Ingrid Surgenor
Pianist: Ingrid Surgenor Music Consultant: Jeremy Huw Williams
Cardiff Castle, Wednesday 6th June 2007


1673
An Address by His Holiness Pope Benedict XVI
to Members of Parliament and Civil Society in
Westminster Hall
in the presence of Mr Speaker and the Lord Speaker
on Friday 17th September 2010 at 5.10 p.m.
Mr Darren David Millar
Admittance by Ticket and Photo Identity only
Entrance via Portcullis House / North Door
Doors open at 3.15 p.m.
Doors close at 4.40 p.m.
NON TRANSFERABLE
PLEASE SEE REVERSE

**Darren Millar Papers**


His Royal Highness The Prince of Wales
requests the pleasure of the company of
Mr Darren Millar A M
at a Dinner to celebrate
The Opening of the Third Assembly
to be held at Cardiff Castle
on Wednesday, 6th June 2007
R.S.V.P.
on card provided
Time: 7.30 pm
Dress: Black Tie

## GETHIN A SIÂN AP GRUFFYDD

**Ym mis Medi 2024, rhoddwyd archif sylweddol o ddeunydd yn ymwneud â gweithgareddau Cofiwn a Llysgenhadaeth Glyndŵr, ynghyd â deunydd sy'n gysylltiedig â Mudiad Amddiffyn Cymru i'r Llyfrgell gan Sian ap Gruffydd.**

**Papurau Gethin a Siân ap Gruffydd.**

A significant archive of material relating to the activities of Cofiwn and Embassy Glyndŵr, along with material related to Mudiad Amddiffyn Cymru was donated by Sian ap Gruffydd in September 2024.

**Papurau Gethin a Siân ap Gruffydd.**

---

## GWAITH CELF A GYFLWYNWYD I WYN ROBERTS

**Ym mis Ebrill 2025, prynodd y Llyfrgell baentiadau o Bont Ceiriog ac o Ail Groesfan Hafren a gyflwynwyd i Wyn Roberts pan oedd yn Weinidog Swyddfa Cymru.**

**Casgliad Celf Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

## PAINTINGS PRESENTED TO WYN ROBERTS

Paintings of the Ceiriog Bridge and Second Severn Crossing which were presented to Wyn Roberts while he was a Wales Office Minister were purchased by the Library in April 2025.

**The National Library of Wales Art Collection.**

## PLAID RYDDFRYDOL CYMRU

**Ym mis Mai 2025, rhoddodd Hâf Matthews a Nia Lloyd Morgan lyfr o gofnodion Plaid Ryddfrydol Cymru rhwng 1948 a 1955, gan gynnwys toriadau o'r wasg, i'r Llyfrgell.**

**NLW ex 3134.**

## WELSH LIBERAL PARTY

A book of minutes of the Welsh Liberal Party between 1948 and 1955, including press cuttings, was donated to the Library by Hâf Matthews and Nia Lloyd Morgan in May 2025.

**NLW ex 3134.**

## POSTERI

Ychwanegwyd casgliad bychan o bosteri'n hyrwyddo Plaid Cymru a rhai'n gwrthwynebu consgripsiwn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf at gasgliad posteri Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## POSTERS

A small group of posters promoting Plaid Cymru and opposing conscription in the First World War were added to the National Library of Wales poster collection.

## PENDDELW GWYNFOR EVANS GAN VALERIE WYNNE


Ym mis Medi 2024, rhoddodd Valerie Wynne benddelw o Gwynfor Evans a wnaed gan Jonah Jones i'r Llyfrgell.

**Casgliad Celf Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

## BUST OF GWYNFOR EVANS BY VALERIE WYNNE

A bust of Gwynfor Evans by Jonah Jones was donated to the Library by Valerie Wynne in September 2024.

**The National Library of Wales Art Collection.**




NLW Ex3139

## DAVID LEWIS DAVIES


Ym mis Gorffennaf 2025, rhoddwyd archif fechan sy'n ymwneud â David Lewis Davies, AS Pontypridd rhwng 1931 a 1937, gan gynnwys areithiau, ffotograffau, effemera etholiadol a gwahoddiad i fynychu Coroni'r Brenin Siôr VI, i'r Llyfrgell gan ei deulu.

**NLW ex 3139.**

## DAVID LEWIS DAVIES

A small archive relating to David Lewis Davies, MP for Pontypridd from 1931 to 1937, including speeches, photographs, election ephemera and an invitation to attend the Coronation of King George VI, was donated by his family in July 2025.

**NLW ex 3139.**




"Let me have a companion of my way."

1929–1930

With Greetings for Christmas and New Year.

J. Ramsay MacDonald,
10, Downing Street, London.



FROM PHILIP SNOWDEN, 55 CARLISLE MANSIONS, WESTMINSTER, S.W.1.

Sept.11th,1923

Dear Griff,

When I was a little boy I had a porridge mug on which was inscribed a number of wise precepts for the edification of the young mind. One of these ran " Lose not what thou wants for the sake of asking for it; it will get thee no thanks". I think you must have been brought up on similar intellectual morals.

I was in Swansea last year - nay indeed this year. And now you ask me to come again. There are, I am told 800 branches of the I.L.P. and 2000 branches of the Labour Party. If I take three days a week to visit each of these it will be just sixty years before your turn comes round again. Write to me again just before your time comes round.

All good wishes and kind regards
Yours sincerely

Philip Snowden

Griff Jones Esq.
Swansea.

Griff Jones Papers

## Y BLAID LAFUR YN ABERTAWE

**Ym mis Mawrth 2025, prynodd y Llyfrgell archif fechan o lythyrau a chardiau post a anfonwyd at ymgyrchydd a chartwnydd Plaid Lafur Abertawe, Griff Jones, gan y Prif Weinidog Llafur Ramsay MacDonald a'r Canghellor Philip Snowden. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys nifer o gardiau post a anfonwyd at Jones gan MacDonald o bedwar ban byd.**

**Griff Jones Papers.**

## LABOUR PARTY IN SWANSEA

The Library purchased a small archive of letters and postcards sent to Swansea Labour Party activist and cartoonist, Griff Jones, from Labour Prime Minister Ramsay MacDonald and Chancellor Philip Snowden, in March 2025. The collection also includes a number of postcards sent to Jones by MacDonald from various locations around the world.

**Griff Jones Papers.**

## ALAN BUTT PHILIP

**Saith llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau a wnaed yn ystod cyfweliadau a gafodd y rhoddwr â gwleidyddion, ffigyrau cyhoeddus ac ymgyrchwyr Cymreig rhwng 1968–70 fel rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer ei draethawd D.Phil ym Mhrifysgol Rhydychen ar genedlaetholdeb Cymreig 1945–70, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach fel *The Welsh Question: Nationalism in Welsh Politics, 1945–1970* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975).**

**NLW ex 3120.**

## ALAN BUTT PHILIP

Seven notebooks containing notes made during interviews conducted by the donor with Welsh politicians, public figures and activists during the period 1968–70 as part of the research for his D.Phil thesis at Oxford University on Welsh nationalism 1945–70, later published as T*he Welsh Question: Nationalism in Welsh Politics, 1945–1970* (Cardiff : University of Wales Press, 1975).

**NLW ex 3120.**

# YCHWANEGIADAU
# ADDITIONS

**Cafwyd nifer o ychwanegiadau i'r archifau sydd eisoes yn y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn hefyd.**

A number of additions to archives already held in the Library were also received during the year.

## CYNOG DAFIS


**Rhoddwyd dwy ffeil o ohebiaeth i'r Llyfrgell ym mis Hydref 2024, a oedd yn cynnwys ymateb gan Gwynfor Evans i gynnig Dafis yn 1964 na ddylai Plaid Cymru gystadlu yn yr Etholiadau Cyffredinol, llythyr gan Elystan Morgan a gohebiaeth gyda John Jenkins. Mae deunydd clyweledol wedi'i drosglwyddo i Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**Ychwanegiad at Bapurau Cynog Dafis.**

## CYNOG DAFIS

Two files of correspondence including a reply from Gwynfor Evans to Dafis's 1964 motion that Plaid Cymru should not contest General Elections, a letter from Elystan Morgan and correspondence with John Jenkins were donated to the Library in October 2024. Audio-visual material has been transferred to the National Library of Wales Screen and Sound Archive.

**Addition to Papurau Cynog Dafis.**


13 AUG 71
15 AUG 71
In replying to this letter, please write on the envelope:—
Number 570353 Name JENKINS J.B.
Wormwood Scrubs
London, W.12

Annwyl Mr. Davies,
I was recommended to write to you by Gareth Miles, a good friend of mine, and also by Audrey and Albert White of Brynmawr whom I believe you know.
The position is that I am anxious for my eldest son to live in a thoroughly Welsh atmosphere for a week or two prior to returning to school. I realise that the position is pretty hopeless because of the lateness of the request, but he has been away with his mother who did not see fit to let me know the date of their return, so that I was unable to forecast with any accuracy just when he would be available.
He is almost 12 and has always ... Ysgol Gymraeg, but to him yr Iaith ...

**Papurau Cynog Dafis**

## LORD PAUL MURPHY

**Rhagor o bapurau gwleidyddol yn ymwneud â gyrfa wleidyddol a gweinidogol yr Arglwydd Murphy.**

**Ychwanegiad at Lord Murphy of Torfaen Papers.**

## LORD PAUL MURPHY

Further political papers relating to Lord Murphy's political and ministerial career.

**Addition to Lord Murphy of Torfaen Papers.**

## LORD PETER HAIN


**Rhagor o bapurau gwleidyddol gan gynnwys effemera, ffotograffau a gohebiaeth, yn ymwneud yn bennaf â gwaith yr Arglwydd Hain gyda'r YMCA.**

**Ychwanegiad at Peter Hain Papers.**


## LORD PETER HAIN

Further political papers including ephemera, photographs and correspondence, mainly relating to the Lord Hain's work with the YMCA.

**Addition to Peter Hain Papers.**




NLWMS24277




**George Julian Scovell (Coalition Liberal Organisation) Collection**

## DAVID LLOYD GEORGE

**Ym mis Medi 2024, prynwyd pamffled prin sy'n cynnwys copi o Araith Mile End a draddododd David Lloyd George cyn Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 1910 i ymosod ar hawl feto Tŷ'r Arglwyddi, ynghyd â llythyr gan Winston Churchill.**

**2018 XA 5580.**

**Ym mis Awst 2024, prynwyd deunydd pellach yn ymwneud â'r Cyrnol Julian Scovell a'r sefydliad Coalition Liberal, gan gynnwys rhagfynegiadau ar gyfer Etholiad Cyffredinol 1922.**

**Ychwanegiad at George Julian Scovell (Coalition Liberal Organisation ) Collection.**

**Ym mis Gorffennaf 2025, prynwyd llyfr nodiadau bach a ddefnyddiwyd gan David Lloyd George rhwng 1938–40 sy'n cynnwys cyfeiriadau at gymorth bwyd i Sbaen, digartrefedd yn Belfast, a gwaith ar ei fferm yn Churt.**

**NLW MS 24227.**

## DAVID LLOYD GEORGE

A rare pamphlet containing a copy of David Lloyd George's Mile End Speech attacking the veto power of the House of Lords ahead of the December 1910 General Election along with a letter by Winston Churchill, were purchased in September 2024.


**2018 XA 5580.**

Further material relating to Col. Julian Scovell and the Coalition Liberal Organisation, including predictions for the 1922 General Election, was purchased in August 2024.

**Addition to George Julian Scovell (Coalition Liberal Organisation) Collection.**

A small notebook used by David Lloyd George 1938–40 with references to food aid for Spain, homelessness in Belfast and the running of his farm at Churt was purchased in July 2025.

**NLW MS 24227.**



Gareth Vaughan Jones Papers

## GARETH JONES

**Ym mis Mawrth 2025, adneuodd Graham Colley gist fechan a gyflwynwyd yn wreiddiol i Edgar Jones, tad Gareth Vaughan Jones, wedi iddo gael Rhyddid Bwrdeistref y Barri ym 1950, ynghyd â thystysgrif i nodi'r achlysur, toriadau cysylltiedig o'r wasg, ffotograffau a llythyr gan Goleg Prifysgol De Cymru a Mynwy yn dilyn marwolaeth brawd Edgar, Raymond, yn ystod y Rhyfel Mawr, ac erthygl am Annie Gwen Jones gan Graham ei hun.**

**Ym mis Chwefror a Mawrth 2025, fe wnaeth Jeff Towns roi copi o lyfr o gyfieithiadau Almaeneg o lenyddiaeth Rwseg, *Russische National-Bibliothek*, a ddefnyddiwyd gan Gareth Jones yn ystod ei gyfnod yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt ym 1927, ynghyd â chopi o lyfr hanesyddol gwleidyddol Almaenig, *Das Ende der Reparationen*, a oedd yn eiddo i Gareth Jones tra bu'n byw yn Efrog Newydd ac sydd yn cynnwys nodiadau ganddo.**

**Ychwanegiad at Gareth Vaughan Jones Papers.**

## GARETH JONES

A small chest presented to Edgar Jones, Gareth Vaughan Jones' father, on being granted the Freedom of the Borough of Barry in 1950, together with a certificate marking the occasion, related press cuttings, photographs and a letter from the University College of South Wales and Monmouthshire following the death of Edgar's brother, Raymond, during the Great War, were deposited with the Library by Graham Colley in March 2025, together with an article by the depositor about Annie Gwen Jones.

A copy of a book of German translations of Russian literature, *Russische National-Bibliothek*, used by Gareth Jones while at Trinity College, Cambridge in 1927 and a copy of a German political historical book, *Das Ende der Reparationen*, owned by Gareth Jones while he lived in New York and annotated by him, were donated by Jeff Towns in February and March 2025.

**Addition to Gareth Vaughan Jones Papers.**

## RHODDION GAN SIÔN JOBBINS

**Rhoddwyd deunydd yn ymwneud â Ras yr Iaith, Ymgyrch Dot Cym ac Ymgyrch Senedd Cymru yn ystod y flwyddyn, ac fe'u hychwanegwyd at**

**Dot Cym Campaign Records, Archif Ras yr Iaith, Papurau Sion T. Jobbins a NLW ex 2607.**

## DONATIONS BY SIÔN JOBBINS

Material relating to Ras yr Iaith, the Dot Cym Campaign and the Parliament for Wales Campaign were donated during the year and have been added to

**Dot Cym Campaign Records, Archif Ras yr Iaith, Papurau Sion T. Jobbins and NLW ex 2607.**

## YES CYMRU

**Rhoddwyd rhagor o bapurau a ffeiliau digidol, gan gynnwys gohebiaeth gynnar a chofnodion yn ymwneud â mudiad Annibyniaeth Cymru Yes Cymru, gan Siôn Jobbins a Colin Nosworthy.**

**Ychwanegiad at Yes Cymru Archive.**

Further papers and digital files including early correspondence and minutes relating to Welsh Independence movement Yes Cymru were donated by Siôn Jobbins and Colin Nosworthy.

**Addition to Yes Cymru Archive.**

## PLAID CYMRU

**Trosglwyddwyd rhagor o gofnodion a chopïau o gyhoeddiadau mewnol i'r Llyfrgell ym mis Medi 2024.**

**Ychwanegiad at Archif Plaid Cymru.**

Further records and copies of internal publications were transferred to the Library in September 2024.

**Addition to Archif Plaid Cymru.**






**Ymweliad staff Shelter Cymru/ Visit of Shelter Cymru staff**

## SHELTER CYMRU

**Ymwelodd nifer o staff Shelter Cymru â'r Llyfrgell ym mis Gorffennaf 2025 i weld eitemau o'u harchif ac i ychwanegu ffeil o ddeunydd mwy diweddar i'r casgliad.**

**Ychwanegiad i Shelter Cymru Archive.**

## SHELTER CYMRU

A number of Shelter Cymru's staff visited the Library in July 2025 to see items from their archive and add a file of more recent material to the collection.

**Addition to Shelter Cymru Archive.**

## WAYNE DAVID

**Papurau ychwanegol gan gynnwys nodiadau gan Wayne David yn ymwneud â'i gyfnod fel myfyriwr ym mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe, ac yn ymwneud â'i waith fel tiwtor-drefnydd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), fel Aelod o Senedd Ewrop, ac fel Aelod Seneddol dros Gaerffili (2001–2024).**

**Ychwanegiad at Wayne David Papers.**

## WAYNE DAVID

Additional papers including notes from Wayne David relating to his time as a student at Cardiff and Swansea universities, and relating to his roles as WEA tutor-organiser, Member of the European Parliament and Member of Parliament for Caerphilly (2001–2024).

**Addition to Wayne David Papers.**

## Y FARWNES RANDERSON


**Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaeth teulu'r Farwnes Randerson roi saith bocs o bapurau o'i swyddfa wleidyddol yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan gynnwys papurau cyfoes sy'n gysylltiedig â'i gwaith ar bolisi trafnidiaeth, papurau o'i chyfnod yn llywodraeth glymblaid Cameron-Clegg ac yn llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â rhai llyfrau copi cymdeithas a chofnodion o ymweliadau swyddogol â gwledydd eraill a NATO.**

**Ychwanegiad at Baroness Randerson Papers.**

## BARONESS RANDERSON

Seven boxes of papers from Baroness Randerson's political office in the House of Lords, including contemporary papers connected with her work on transport policy, papers from her time in the Cameron-Clegg coalition government and in government in the Welsh Assembly, together with some annotated copy books and records of official visits to other countries and NATO were donated by her family in November 2024.

**Addition to Baroness Randerson Papers.**



Lord Rowe-Peddoe Papers

## YR ARGLWYDD ROWE-BEDDOE

Papurau pellach yn ymwneud â gwaith yr Arglwydd Rowe-Beddoe gydag Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Canolfan Mileniwm Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a'r Eglwys yng Nghymru.

**Ychwanegiad at Lord Rowe-Beddoe Papers.**

## LORD ROWE-BEDDOE

Further papers relating to Lord Rowe-Beddoe's work with the Welsh Development Agency, Development Board for Rural Wales, the Wales Millennium Centre, the Royal Welsh College of Music and Drama and the Church in Wales.

**Addition to Lord Rowe-Beddoe Papers.**

## YCHWANEGIADAU AT GASGLIAD EFFEMERA GWLEIDYDDOL CYMRU

Cafwyd deunydd yn ymwneud â Phlaid Cymru yn rhodd ac fe'i hychwanegwyd at y casgliad yn ffeiliau A4/5 ac A4/6, ac ychwanegwyd deunydd yn ymwneud â Rhyfel Israel–Hamas, Cytundeb Cydweithredu Llafur–Plaid Cymru ac ymgyrch Peilon Dyffryn Tywi at ffeiliau C3/54, C3/56 a C3/58. Cafodd swm sylweddol o ddeunydd a oedd eisoes wedi'i roi ac a oedd yn ymwneud â chynadleddau, etholiadau arweinyddiaeth, a dewis ymgeiswyr Llafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru, yn ogystal â themâu fel protestiadau gwrth-lymder, y 'Dreth Ystafell Wely' a ffoaduriaid eu hychwanegu i'r casgliad hefyd.

## ADDITIONS TO THE WELSH POLITICAL EPHEMERA COLLECTION

Material donated relating to Plaid Cymru was added to the collection in files A4/5 and A4/6 and material relating to the Israel-Hamas War, the Labour-Plaid Cymru Co-operation Agreement and the Tywi Valley Pylon campaign were added to files C3/54, C3/56 and C3/58. A significant amount of material which had previously been donated relating to conferences, leadership elections and candidate selection in Welsh Labour, the Welsh Liberal Democrats and Plaid Cymru and themes such as anti-austerity protests, the 'Bedroom Tax' and refugees were also added to the collection.




Welsh Political Ephemera Collection

# **CATALOGIO**
# CATALOGUING


**Yn ystod y flwyddyn, catalogiwyd nifer o gasgliadau sydd bellach i'w gweld ar gatalog ar-lein y Llyfrgell.**

During the year, a number of collections were catalogued and made available on the Library's online catalogue.


- Cambrian Coast Line Action Group Archive
- Papurau Cynog Dafis – Ychwanegiad/Addition
- Ithel Davies – Ychwanegiad/Addition
- Jill Evans Papers
- Gwyn Griffiths Papers – Ychwanegiad/Addition
- James Griffiths Papers – Ychwanegiad/Addition
- Papurau Wynfford James
- Alan Jobbins Papers – Ychwanegiad/Addition
- Gareth Vaughan Jones Papers – Ychwanegiad/Addition
- Gwynoro Jones Papers
- Labour Party Wales Archive – Ychwanegiad/Addition
- Griff Jones Papers
- Lord Goronwy-Roberts Papers – Ychwanegiad/Addition
- Lord Rowe-Beddoe Papers
- George Jullian Scovell (Coalition Liberal Organisation) Papers – Ychwanegiad/Addition
- Welsh Political Ephemera Collection – Ychwanegiadau/Additions
- Leanne Wood Papers
- Archif Yes Cymru Archive

**Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o archifau sy'n gysylltiedig â'r mudiad cenedlaethol wedi'u hychwanegu at gronfa ddata DIANE, a gynhelir gan National Movements and Intermediary Structures in Europe (NISE).**


During the year a number of archives relating to the national movement have been added to the DIANE database, hosted by National Movements and Intermediary Structures in Europe (NISE).




Cambrian Coast Line Action Group Archive / Archif Grŵp Gweithredu Rheilffordd y Cambrian



...he Nation's solvency by ...
...g out of a prices and incomes policy, in cooperation with both sides
...ry, so as to prevent inflation, and the establishment of a firm and
...se upon which steady and continuous economic growth can be



to create a new ...
rivalries of the past; in an united Europe. For them, as I ...
the Community meant more than a customs union to promote freer trade and economic
prosperity, it was the also the resolve to build an outward looking Europe which
would play its part in working towards world unity. One of the many tragedies
consequencies of the two world wars has been the dwarfing of Europe in the
... Community, working to build a bridge across the
... want,
... As the
... I wish
... position,
... elections,
... has had t...
... for the ...
... and of the
... 1931. And



OFFICE OF THE CHIEF MINISTER,
P.O. Box 9000,
DAR ES SALAAM,
TANGANYIKA

11-9-1960.


My dear Jim,

Very many thanks for your letter and good wishes to me and my colleagues. We are happy to have reached this position in the way in which we have. But as a socialist you will appreciate that this is only the beginning. I have emphasized over and over again that I look at our freedom from Colonial rule as an instrument which we can use to raise the standard of living of our people. In that new task, even more than in the task of winning our freedom (which in the modern world is a foregone conclusion) we shall need the sympathy and help of our friends abroad. I am sure the British people and in particular the Labour Party will not fail to understand this.

Once again very many thanks, and please remember me to friends.

Yours sincerely,

Julius K. Nyerere



Air Mail

Please quote number and date of this letter.

PRIME MINISTER'S OFFICE
P.O. Box 140
ACCRA

No. SCR.0056/Vol.IV/9

May, 1954.

My dear Mr Griffiths,

I was very glad to receive your kind letter of good wishes of the 30th of April. You perhaps more than most can appreciate that it has not always been easy for us in the day to day pressure of public business to keep in mind at all times the need to progress steadily towards our aim of independence, and I feel very gratified that our efforts have met with so great a measure of general support in England. I think it can truthfully be said that both the Government of which you were a member and the present Government are sincere in their desire to see that we in the Gold Coast become able and empowered to manage our own affairs with no undue delay, and this last step towards full independence fills us with hope and courage for the future.

I have never doubted that you and your colleagues on the Opposition Front Bench are true friends of the Gold Coast, and I hasten to reciprocate that friendship. We in the Gold Coast have always regarded as implicit in the constitutional advances granted to us that our eventual status should be full independence within the Commonwealth, and I am sure that you and your colleagues will do your best, both in Parliament and in England as a whole, to help us achieve full Commonwealth status; you will, I feel, agree that the attainment of that status is a matter primarily between Her Majesty's Governments of Great Britain and of the Gold Coast, and that it is neither the right, nor the duty, of other members of the Commonwealth formally to agree or disagree with the Gold Coast's achievement of this status. I appreciate of course that Her Majesty's Government of Great Britain may wish to hold private consultations with other members of the Commonwealth, but such conversations would not be the concern of Her Majesty's Government of the Gold Coast. I am sure that this implicit understanding is as clear now to you and to your colleagues as it always was in the past.

With my best wishes to you and your colleagues, and many thanks for your kind letter,

Yours very sincerely


Kwame Nkrumah

PRIME MINISTER.

The Rt. Honourable James Griffiths,
House of Commons,
LONDON, S.W.1.

James Griffiths Papers

Lord Goronwy-Roberts Papers



TRANSPORT AND GENERAL WORKERS' UNION
TRANSPORT HOUSE, SMITH SQUARE
WESTMINSTER, S.W.1



To Greet you
this Christmas time and to wish you
Happiness and Health
and Peace and Prosperity
in the New Year

*from*

The General Executive Council

# NEWYDDION O'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# NEWS FROM THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

## DARLITH FLYNYDDOL 2024

**Traddodwyd darlith flynyddol 2024 gan yr academydd nodedig, yr Athro Charlotte Williams OBE, Ddydd Gwener 18 Hydref yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Teitl y ddarlith oedd *From A Tolerant Nation? To an Anti-Racist Nation?*, ac ynddi edrychai Charlotte ar le hil yng ngwleidyddiaeth Cymru yng nghyd-destun twf yr adain dde eithafol ledled Ewrop a gwleidyddiaeth wrthwynebus i amrywiaeth ethnig a mewnfudo ledled y DU.**

**Roedd y ddarlith yn ffrwyth 30 mlynedd o waith ymchwil academaidd ac yn tynnu ar brofiadau Charlotte o weithio ym maes polisi cyhoeddus ac o gael ei magu, ei haddysgu, ac o weithio yng Nghymru. Rhoddodd sylw i'r 25 mlynedd diwethaf o lywodraeth ddatganoledig fel tri chyfnod gwahanol, gyda'r cwestiwn cyffredinol: a all llywodraethau lywio a chynnal llwybr tuag at gyfiawnder hiliol mewn ffordd gynhwysfawr?**

**Heriodd Charlotte y teimlad bod Cymru yn eithriad pan ddaw at hil, a'r hunan-bortread cenedlaethol bod unrhyw wyriadau oddi wrth y naratif o genedl oddefgar yn 'anghymreig' neu o ganlyniad i 'ambell un drwg', ac edrychodd ar y cyfleoedd i newid polisi ar hil ar ôl datganoli. Bu hefyd yn ystyried y gwrthgyferbyniadau rhwng dulliau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb, ac effaith gwahanol ddulliau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach.**

**Nododd Charlotte newid sylweddol yn agwedd y llywodraeth yn dilyn y mudiad Black Lives Matter a'r ethos cyd-gynhyrchu sydd wrth wraidd cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol. Roedd yn falch o weld mai Cymru fwy egalitaraidd oedd sbardun sylfaenol y Cynllun, heb i hil gael ei ystyried yn achos arbennig o fewn menter bolisi unigryw ynysig, a'i bod yn hytrach yn rhan o gynllun integredig sy'n adlewyrchu'r agenda ehangach sy'n seiliedig ar werthoedd.**

**Cyhoeddwyd testun y ddarlith ar dudalennau yr Archif Wleidyddol Gymreig:**

**www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig**

## THE 2024 ANNUAL LECTURE

The 2024 annual lecture was given by distinguished academic Prof. Charlotte Williams OBE on Friday 18 October at the National Library of Wales. In the lecture entitled *From A Tolerant Nation? to an Anti-Racist Nation?* Charlotte looked back on the trajectory of race in politics in Wales against the backdrop of the rise of the far-right across Europe and the politics of hostility to ethnic diversity and immigration across the UK.

Charlotte drew on her experiences of 30 years of academic research, her public policy roles and her lived experience of growing up, being educated and working in Wales throughout the lecture. She considered the past 25 years of devolved government as three distinct eras, with the overall question of whether governments can comprehensively steer and sustain a path towards racial justice.

Charlotte challenged Welsh exceptionalism in relation to race and the national self-portrait that aberrations to the tolerant nation narrative were 'un-Welsh' or down to a 'few bad apples' and explored the opportunities for a shift in policy on race after devolution. She also considered the contrasts between approaches taken by the UK and Welsh Governments in respect of equality and the effect of differing approaches to public service delivery more widely.

Charlotte noted a significant change in government approach following the Black Lives Matter movement and the co-production ethos at the heart of the Anti-Racist Wales Action plan. She welcomed the underpinning driver for the Plan as 'a more egalitarian Wales' and with race not framed as a special case within an isolated distinctive policy initiative but as part of an integrated plan that reflects the wider values driven agenda.

The text of the lecture has been published on the pages of The Welsh Political Archive:

www.library.wales/collections/learn-more/archives/the-welsh-political-archive/the-welsh-political-archive-annual-lecture




Yr Athro Charlotte Williams OBE FSLW/
Professor Charlotte Williams OBE FLSW

## CYHOEDDIADAU A'R CYFRYNGAU

**Cyhoeddwyd *Maniffesto 55* ym mis Hydref 2024, ac mae'n cynnwys manylion ar dderbyniadau newydd, gwaith catalogio, gweithgareddau hyrwyddo ac allgymorth, yn ogystal ag erthyglau ar Brosiect Deiseb Heddwch Menywod Cymru, Prosiect Dad-drefedigaethu Archifau'r Llyfrgell ac eitem ar y broses o greu Cyfraith Cymru a dyletswydd Archif Wleidyddol Cymru i fod yn geidwad Deddfau'r Senedd. Mae bellach ar gael ar wefan y Llyfrgell:**

**www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/cylchlythyr-yr-archif-wleidyddol-gymreig**

**Cyhoeddwyd canllawiau casgliadau newydd gan Gymdeithas Astudio Hanes y Blaid Lafur ar eu gwefan yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adnoddau a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae canllawiau sy'n cynnwys y derbyniadau newydd i'w cael yn**

**sslh.org.uk/2025/03/19/additions-to-labour-history-archive-collections-2024**

**Adnoddau sy'n ymwneud â Streic y Glowyr 1984–85 i'w cael yn**

**sslh.org.uk/2024/10/11/sources-for-the-1984-85-miners-strike**

**Lansiwyd canllaw casgliad newydd ar gyfer papurau Ysgrifenyddion Gwladol Cymru ar ddiwedd 2024, a hynny i nodi 60 mlynedd ers creu'r swydd, a gellir dod o hyd iddo yma**

**www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/ysgrifenyddion-gwladol-cymru.**

**Ychwanegwyd canllaw newydd i archifau'r Mudiad Cydweithredol i'r dudalen Archifau fesul Thema yn**

**www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/archifau-fesul-thema**

**Ysgrifennodd Rob Phillips nifer o erthyglau ar gyfer blog Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn a oedd yn tynnu sylw at straeon mewn nifer o gasgliadau gan gynnwys diwygio llywodraeth leol yng Nghymru ym Mhapurau Syr Guildhaume Myrddin-Evans www.llyfrgell.cymru/newyddion/article/problem-na-ellir-ei-datrys, gohebiaeth ddifyr rhwng Prif Weinidog cyntaf y Blaid Lafur, Ramsay MacDonald ac actifydd plaid Lafur Abertawe Griff Jones www.llyfrgell.cymru/newyddion/article/letters-from-a-labour-leader a'r ymgyrch i achub rheilffordd y Cambrian Coast www.llyfrgell.cymru/newyddion/article/mission-impossible**

## PUBLICATIONS AND MEDIA

*Manifesto 55*, detailing new acquisitions, cataloguing work, promotional and outreach activities and with articles on the Welsh Women's Peace Petition Project, the Library's Archives Decolonisation Project and an item on the process of creating Welsh Law and the Welsh Political Archive's role as custodian of Senedd Acts, was published in October 2024 and is now available on the Library website

www.library.wales/welshpoliticalarchive/the-welsh-political-archive-newsletter

New collections guides were published by the Society for the Study of Labour history on their website during the year featuring resources held at the National Library of Wales. Guides featuring new acquisitions can be found at

sslh.org.uk/2025/03/19/additions-to-labour-history-archive-collections-2024

Resources relating to the 1984–85 Miners' Strike can be found at

sslh.org.uk/2024/10/11/sources-for-the-1984-85-miners-strike

A new collection guide to the papers of Secretaries of State for Wales was launched in late 2024 to mark the 60th anniversary of the creation of the post and can be found at

www.library.wales/welshpoliticalarchive/secretaries-of-state-for-wales.


A new guide to archives of the Co-operative Movement was added to the Archives by Theme page at


www.library.wales/welshpoliticalarchive/archives-by-theme

Rob Phillips wrote a number of articles for the National Library of Wales blog during the year highlighting stories from a number of collections including Welsh local government reform in the Sir Guildhaume Myrddin-Evans Papers www.library.wales/news/article/an-unsolvable-problem, interesting correspondence between the first Labour Prime Minister, Ramsay MacDonald and Swansea Labour party activist Griff Jones www.library.wales/news/article/letters-from-a-labour-leader and the fight to save the Cambrian Coast railway line from closure www.library.wales/news/article/mission-impossible

# NODI CANMLWYDDIANT PLAID CYMRU

# MARKING THE CENTENARY OF PLAID CYMRU





TŶ'R CYFFREDIN
DYDD MAWRTH, GORFFENNAF 26, 1966
(Detholiad o'r Adroddiad Swyddogol)
RHYDDID I GYMRU
ARAITH GYNTAF MR. GWYNFOR EVANS
YN NHŶ'R CYFFREDIN

Archif Plaid Cymru

## DIGIDO

**Yn 2025, fel rhan o weithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig i nodi canmlwyddiant sefydlu Plaid Cymru, cafodd nifer o ddogfennau eu digido gan gynnwys cofnodion cynnar y blaid, sawl maniffesto, cyhoeddiadau polisi ac areithiau. Gwnaethpwyd hyn i gefnogi adnodd newydd ar hanes Plaid Cymru ar dudalennau gwe Archif Wleidyddol Cymru.**

**www.llyfrgell.cymru/plaidcymru100**

## DIGITISATION

As part of the Welsh Political Archive's activities to mark the centenary of the founding of Plaid Cymru, a number of documents including early party minutes, manifestoes, policy publications and speeches were digitised in 2025 to support a new resource on the history of Plaid Cymru on the Welsh Political Archive web pages.

www.library.wales/plaidcymru100



# CYFARFOD Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL

**Fe wnaeth Pwyllgor Ymgynghorol Yr Archif Wleidyddol Gymreig gwrdd yn Ystafell y Cyngor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 18 Hydref 2024, ychydig cyn y Ddarlith Flynyddol. Estynnwyd croeso arbennig i Mary Thorley fel aelod newydd o'r Pwyllgor sy'n cynrychioli Archif Menywod Cymru. Cafodd y pwyllgor gyflwyniad ar Brosiect Dad-drefedigaethu Archifau'r Llyfrgell, adroddiad ar waith yr archif yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfleoedd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, a diweddariad i'r rhestr o archifau i'w targedu. Fe wnaeth y pwyllgor hefyd drafod digwyddiadau posibl i nodi 100 mlynedd ers y Streic Gyffredinol, a strategaeth i gasglu papurau perthnasol yn dilyn yr Etholiadau Cyffredinol a ddisgwylwyd yn 2025.**

# ADVISORY COMMITTEE MEETING

The Welsh Political Archive Advisory Committee met in the Council Chamber at the National Library of Wales on 18 October 2024, shortly before the Annual Lecture. A special welcome was extended to Mary Thorley as a new member of the Committee representing the Women's Archive of Wales. The committee received a presentation on the Library's Archives Decolonisation Project, a report on the work of the archive in the past year, opportunities for future projects, and updated the list of archives to target. The committee also discussed potential events to mark the 100th anniversary of the General Strike, and a strategy to collect relevant papers following the General Election that was expected in 2025.

# DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU ERAILL
# OTHER EVENTS AND ACTIVITIES

**Cynhaliwyd trafodaeth banel yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mhontypridd i nodi fod y prosiect i gatalogio Papurau Ann Clwyd wedi'i gwblhau. Roedd y panel yn cynnwys y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, y ddarlledwraig Beti George, a Rob Phillips ac fe'i cadeiriwyd gan y newyddiadurwr Dylan Iorwerth. Trafododd y panel yrfa wleidyddol hir Ann Clwyd, ei hegwyddorion a'i chredoau, a sut mae'r rheiny yn cael eu hadlewyrchu yn ei phapurau.**

**Cydnabuwyd y prosiect i gatalogio Papurau Ann Clwyd yn adroddiad A Year in Archives 2024 yr Archifau Cenedlaethol – www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/our-archives-sector-role/celebrating-archives/a-year-in-archives/a-year-in-archives-2024/highlights/northern-ireland-scotland-and-wales/**

A panel discussion was held at the National Eisteddfod of Wales in Pontypridd to mark the completion of the project to catalogue the Ann Clwyd Papers. The panel comprised the Rt. Hon. Eluned Morgan MS, broadcaster Beti George and Rob Phillips and was chaired by journalist Dylan Iorwerth. The panel discussed Ann Clwyd's long political career, her principles and beliefs, and how those are reflected in her papers.

The project to catalogue the Ann Clwyd Papers was recognised in The National Archives' report, A Year in Archives 2024 – www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/our-archives-sector-role/celebrating-archives/a-year-in-archives/a-year-in-archives-2024/highlights/northern-ireland-scotland-and-wales



**Cofio Ann Clwyd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Pontypridd**
**Remembering Ann Clwyd, National Eisteddfod of Wales Pontypridd 2024**

**Croesawodd y Llyfrgell ddirprwyaeth o Lysgenhadaeth Ciwba ynghyd â Steven Withenden AS pan ymwelson nhw ag Aberystwyth ar 28 Tachwedd 2024.**

The Library welcomed a delegation from the Embassy of Cuba along with Steven Withenden MP as part of their itinerary during a visit to Aberystwyth on 28 November 2024.



**Ymweliad Ei Hardderchogrwydd Ismara Vargas, Llysgennad Ciwba i'r Deyrnas Unedig/Visit of Her Excellency Ismara Vargas, Ambassador of Cuba to the United Kingdom**

**Aeth Archif Wleidyddol Cymru ag arddangosfa o ddeunydd am Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddigwyddiad yn swyddfeydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhŷ William Morgan yng Nghaerdydd ar 17 Hydref 2024. Denodd yr arddangosfa gryn sylw a chafodd ei chynnwys mewn slot ar raglen *Sharp End* ITV Cymru mewn eitem am y digwyddiad.**

**Fe wnaeth yr Archif hefyd ddarparu sganiau o ddeunydd o'r casgliadau i'w defnyddio mewn derbyniad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mhreswylfa'r Llysgennad ym Mrwsel i nodi 25 mlynedd o ddatganoli. Ers hynny, mae'r deunydd wedi bod yn cael ei arddangos yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.**

The Welsh Political Archive took a pop-up exhibition comprising material relating to the Secretary of State for Wales to an event at the offices of the Secretary of State for Wales in Tŷ William Morgan in Cardiff on 17 October 2024. The exhibition attracted a lot of attention and appeared in a slot on the ITV Wales programme Sharp End in the feature on the event.

The Welsh Political Archive also provided scans of material from the archival collections for a reception hosted by the Welsh Government at the Ambassador's Residence in Brussels to mark 25 years of devolution. The material has since been on display in the Welsh Government Office in Brussels.

**Fel rhan o adolygiad blynyddol newydd o embargos ar gasgliadau archifol, cafodd deunydd o 25 casgliad archifol eu hagor i ddarllenwyr ym mis Ionawr 2025.**

**Ymwelodd Rob Phillips â Phrifysgol Bangor ar 21 Mawrth 2025 i siarad â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig am yr Archif Wleidyddol Gymreig a'r ffynonellau sydd ar gael iddynt ar gyfer eu hymchwil.**

**Yn ystod y flwyddyn, mae Miidong Daloeng wedi bod yn gweithio ar adolygu disgrifiadau archifol yng nghatalogau'r Llyfrgell. Mae'r gwaith yn deillio o Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru, cynllun sy'n hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth Cymru ac yn rhoi persbectif newydd ar yr adnoddau yng nghasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol, ac mae'n dilyn adroddiad ar y rhagfarnau a adlewyrchir yng nghatalogau'r Llyfrgell. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â phryderon megis termau, iaith ac eitemau problematig yn ein casgliadau.**

As part of a new annual review of embargoes on archival collections material in 25 archival collections was opened to readers in January 2025.

Rob Phillips visited Bangor University on 21 March 2025 to speak to undergraduate and postgraduate students on the Welsh Political Archive and sources available to them for their research.

Over the course of the year, Miidong Daloeng has been working on revising archival descriptions in the Library's catalogues. The work stems from the Anti-Racist Wales Action Plan that promotes and celebrates diversity in Wales and gives a new perspective on the resources in the National Library's collections, and follows a report on the biases reflected in the Library's catalogues. Work is under way to address concerns such as problematic terms, language and items in our collections.

**Nodi 60 mlynedd ers penodi'r Ysgrifennydd Gwladol Cymru cyntaf/ Marking 60 years since the appointment of the first Secretary of State for Wales (Swyddfa Cymru/Wales Office)**









# **GOLWG AR EIN CASGLIADAU**
# SPOTLIGHT ON OUR COLLECTIONS

## ‘A TASK FOR FOOLS TO BEGIN AND FOR HEROES TO ACCOMPLISH’ – CANMLWYDDIANT PLAID CYMRU, 1925–2025

**GAN RHYS EVANS**

### Dechreuadau

**Sefydlwyd Plaid Cymru ganrif yn ôl ym Mhwllheli ar 5 Awst 1925. Os ewch i’r dref honno ar drywydd yr hanes, bydd rhaid i chi edrych yn lled galed am yr adeilad lle cyfarfu y chwech dyn (eithriadau oedd menywod yng ngwleidyddiaeth Cymru bryd hynny ac am ddegawdau lawer wedi hynny).**

**Dau blac bychan yn unig i gofnodi’r cyfarfod hwnnw a geir bellach ar yr adeilad (rhwng y siop win a tanning salon) a arferai fod yn westy’r Maes Gwyn. Fodd bynnag, er y dinodedd presennol, mae i’r adeilad le anrhydeddus iawn yn hanes Cymru a lle mwy fyth yn stori Plaid Cymru – ‘....dyna’r dydd pwysicaf yn hanes Plaid Cymru er amser Owain Glyndŵr’, chwedl J. E. Jones, eu hysgrifennydd cyffredinol am dros dri degawd.[1]**

**Gormodiaith, o bosib iawn, gan un o benseiri’r blaid. Ond roedd gan J. E. Jones bwynt teg ynghylch arwyddocâd y diwrnod. Roedd yn dynodi machlud un ideoleg a gwawr un arall a fyddai’n trawsnewid Cymru. Erbyn 1925, roedd apêl Rhyddfrydiaeth Gymreig – ac yn benodol syniadaeth Cymru Fydd a’r gobaith o gael mesur o ymreolaeth drwy Senedd Westminster – yn pylu, a math newydd o syniadaeth, sef cenedlaetholdeb, ar y maes.**

**Cyfarfod bach, dethol oedd cyfarfod Awst 1925. Ymhlith y chwech, roedd yna bedwar yn cynrychioli adain ogleddol y ‘blaid genedlaetholgar’ a arweinid gan Lewis Valentine tra cynrychiolai Saunders Lewis y Mudiad Cymreig, corff dirgel â’i wreiddiau yn y De. Byddai un arall wedi bod yno, sef D. J. Williams, ond gan iddo fethu ei gysylltiad trên roedd y blaid newydd wedi ei sefydlu erbyn iddo gyrraedd. Ys dywedodd Saunders Lewis wrtho yng ngorsaf Pwllheli, “Y mae’r peth wedi ei gychwyn.”[2]**

## ‘A TASK FOR FOOLS TO BEGIN AND FOR HEROES TO ACCOMPLISH’: PLAID CYMRU’S CENTENARY, 1925–2025

**BY RHYS EVANS**

### Beginnings

Plaid Cymru was founded a century ago, in Pwllheli on 5 August 1925. If you go there in search of the story, you’ll have to look quite hard for the building where the six men met (women were the exception in Welsh politics then and for many decades later).

There are two small plaques recording that meeting on the building (between the wine shop and the tanning salon) which used to be the Maes Gwyn hotel. However, despite its current insignificance, the location has a very honourable place in Welsh history and an even greater one in Plaid Cymru’s story – ‘... it was the most important day in Welsh history since the time of Owain Glyndŵr,’ according to J. E. Jones, the party’s general secretary for over three decades.[1]

Very probably, an exaggeration by one of the party’s architects. But J. E. Jones had a fair point about the significance of the day. It marked the sunset of one ideology and the dawn of another that would transform Wales. By 1925, the appeal of Welsh Liberalism – and in particular the ideology of Cymru Fydd and the prospect of a measure of autonomy through Westminster – was fading, and a new kind of ideology, nationalism, was at play.

The August 1925 meeting was a small and select affair. Among the six present, four represented the northern wing of the ‘nationalist party’ led by Lewis Valentine; while Saunders Lewis represented Y Mudiad Cymreig (The Welsh Movement), a shadowy group with its roots in South Wales. D. J. Williams would also have been there, but he missed his train connection, and the new party had been established by the time he arrived. As Saunders Lewis told him at Pwllheli station, “The thing has begun.”[2]

[1] J. E. Jones, *Tros Gymru*, (Abertawe/Swansea,1970), t.32.
[2] ibid, t. 32.




Casgliad Geoff Charles Collection

**Proses oedd creu'r 'peth' a chreu cenedlaetholwyr 1925, nid digwyddiad. A ninnau'n nodi cerrig milltir, nid afresymol yw haeru bod 1899 – blwyddyn marwolaeth annhymig seren ddisgleiriaf Cymru, T. E. Ellis, wedi dechrau ar newid sylfaenol o fewn cenhedlaeth iau a fyddai'n arwain at 1925. Yn angladd T. E. Ellis, dyfynna ei gyfaill mynwesol, O. M. Edwards o'r hen groniclwyr pan ddisgynnodd rhai o dywysogion Cymru – 'y dydd hwn y syrthiodd pen a tharian ein gwlad; y dydd hwn y diflannodd gobaith ac addfwynder holl genedl y Brytaniaid.'[3]**

**Rhwng marwolaeth Tom Ellis a chyfarfod Pwllheli, heibio erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf a Gwrthryfel y Pasg, mae trawma a dadrith y genhedlaeth honno i'w gweld yn glir. Yr ateb i rai – a nifer fychan gyda hynny – oedd sefydlu nid yn unig plaid genedlaetholgar newydd ond ceisio creu gwareiddiad newydd. 'It is,' dywedodd D. J. Williams wrth y Manchester Guardian, 'a task for fools to begin and for heroes to accomplish.'[4]**

The creation of the 'thing' and the nationalists of 1925 was a process, not an event. And as we are marking milestones, it is not unreasonable to assert that 1899 – the year of the untimely death of Wales' brightest star, T. E. Ellis, marked the beginning of a fundamental change within a younger generation that would lead to 1925. At the funeral of T. E. Ellis, his dear friend, O. M. Edwards, quoted the old chroniclers when some of the princes of Wales fell – 'on this day the head and shield of our country fell; on this day the hope and humility of the whole nation of Britons disappeared.'[3]

Between the death of Tom Ellis and the Pwllheli meeting, past the horrors of the First World War and the Easter Rising, the trauma and disillusionment of that generation is clear. The solution for some – and a small number at that – was not only to establish a new nationalist party, but also to attempt to create a new civilization. 'It is,' DJ Williams told the Manchester Guardian, 'a task for fools to begin and for heroes to accomplish.'[4]



Casgliad Julian Sheppard (Hawlfraint Julian Sheppard)/Julian Sheppard Collection (Copyright Julian Shepard)



Llyfr Ffoto 3853 (Hawlfraint/Copyright Plaid Cymru)

[3] *Er Cof*, Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion, Y Bala, d.d.
[4] *Manchester Guardian*, 6.1.1926.



Llyfr Ffoto 1876

## Cymru 1925

**Sut le, felly, oedd Cymru 1925?**

**Ar un ystyr annisgwyl, mae yna nifer o themâu a fydd i ni gyfarwydd i ni heddiw.**

**Roedd yna bryder dwys gan nifer ynghylch y Gymraeg – a fyddai hi fyw; yn rhyngwladol, roedd rhyfel yn bwrw cysgod parhaus – boed hynny o gyfeiriad Tseina, Rwsia neu'r Unol Daleithiau; roedd gwleidyddiaeth yn ansefydlog iawn gydag un blaid fawr, sef y Rhyddfrydwyr, yn ildio ei lle i blaid newydd arall, Llafur, a feddai, serch ei hapêl hithau, ar nifer o garfanau mewnol; yn economaidd, roedd sôn cyson am 'ddiffyndollau' – yr hyn a elwir yn 'tariffs' heddiw; roedd yna hefyd gwyno adeg Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli bod yr Ŵyl rhy fawr. Nid oes dim yn newydd yn y byd.**

**Ond yr hyn oedd yn wahanol bryd hynny oedd natur syniadaeth Plaid, gyda Saunders Lewis yn dod fel asteroid deallusol i chwalu'r consensws a oroesodd am yr hanner can mlynedd flaenorol. Yn wir, mae'n anodd gor-bwysleisio dylanwad Saunders Lewis ar syniadaeth y blaid newydd hon a, thrwy hynny, wleidyddiaeth Cymru yn ehangach. Nid oes yn ei ddatganiadau le i gyfaddawd. Dyna oedd y pwrpas. Mae'n mynd ati felly i greu nid yn unig plaid newydd ond idiom, meddylfryd a dull o weithredu a fyddai'n rhoi'r Gymraeg uwchlaw popeth arall. Eilbeth iddo yntau oedd ymreolaeth o ran pwysigrwydd – byddai'n goddef 'glorified County Council' pe bai hynny yn amddiffyn gwareiddiad Cymraeg Cymru.[5]**

## Wales 1925

So, what kind of place was Wales in 1925?

In one unexpected sense, there are a number of themes that will be familiar to us today.

Many were deeply concerned about whether the Welsh language would survive; internationally, war cast a continuous shadow – whether from China, Russia or the United States; politics was very unstable with one major party, the Liberals, giving way to another, Labour, which, despite its appeal, would have a number of internal factions; economically, 'protective duties'– which we know as 'tariffs' today – were the subject of much discussion; there were also grumblings during the Pwllheli National Eisteddfod that the festival was too large. Plus ça change.

But what was different then is the nature of the ideology of this new party, with Saunders Lewis arriving like an intellectual asteroid to shatter the Liberal consensus that had survived for the previous fifty years. The influence of Saunders Lewis on the ideology of this new party and as a result, on Welsh politics more broadly, cannot be overemphasised. His statements were uncompromising. That was the point. He set out to create not only a new party but a new idiom, a mindset and an approach that would put the Welsh language above all else. Political autonomy was of secondary importance to him – he would tolerate, in his own words, a 'glorified County Council' if that protected the Welsh language.[5]

## Cymru 2025

**Mae gwesty'r Maes Gwyn wedi hen gau ac mae modd prynu cardiau Tarot yn y siop sydd yno bellach. Ymhen llai na blwyddyn, bydd etholiad tyngedfennol i'r Senedd gyda Phlaid Cymru yn ymgiprys am yr hawl i arwain llywodraeth am y tro cyntaf. Fel dwi'n deall, nid pwrpas cardiau Tarot yw proffwydo'r dyfodol ond, yn hytrach, fe'u defnyddir ar gyfer hunan-fyfyrio gan alluogi unigolion i wneud penderfyniadau gwell.**

**Wn i ddim pa mor ddibynadwy yw cardiau Tarot mewn cymhariaeth â chrefft yr hanesydd; nid fy lle i chwaith yw dweud pwy oedd yn 'fool' neu'n 'hero' adeg ffurfio Plaid Cymru, ond dyma rai casgliadau wrth edrych yn ôl.**

**Yn gyntaf, er mai ef yw tad cenedlaetholdeb modern yng Nghymru, methodd Saunders Lewis yn rhacs gyda'i weledigaeth yn yr hir-dymor ar gyfer Plaid Cymru. Sicrhaodd Gwynfor Evans, ac yna Dafydd Wigley a Dafydd Elis-Thomas mai plaid gyfansoddiadol fyddai Plaid Cymru gyda'r nod o Senedd i Gymru yn gwbl ganolog. Mae'r senedd honno a fu'n rhan gwbl greiddiol o agenda Plaid Cymru ers y 1950au bellach ar fin ehangu. Mae'n gorff dwyieithog, nid unieithog fel y gobeithiai Saunders Lewis weld pob un corff cyhoeddus yn dyfod yng Nghymru.**

## Wales 2025

The Maes Gwyn hotel has long since closed, and Tarot cards are sold in the shop there. In less than a year, there will be a crucial Senedd election, and with Plaid Cymru in the running to lead the Welsh Government for the first time. As I understand it, the purpose of Tarot cards is not to foresee the future but, rather, they are used for self-reflection, enabling individuals to make better decisions.

I don't know how reliable Tarot cards are, and as a historian, it is not my place either to say who was a 'fool' or a 'hero' in the story of Plaid Cymru's formation, but here are some conclusions which can be drawn when looking back at the century's history.

Firstly, despite being the father of modern nationalism in Wales, Saunders Lewis' long-term Welsh language-focused vision for Plaid Cymru failed miserably. Gwynfor Evans, followed by Dafydd Wigley and Dafydd Elis-Thomas, ensured that Plaid Cymru would be a constitutional party with the aim of a fully centralised Welsh Parliament.
That parliament, which has been an integral part of Plaid Cymru's agenda since the 1950s, is now on the verge of expanding. It is a fully bilingual institution, despite Saunders Lewis' wish that every single public body in Wales should operate in Welsh only.

[5] Western Mail, 17.8.1923

**Yn ail, Plaid y Chwith yw Plaid Cymru – a hynny am y pegwn gyda syniadaeth asgell Dde nifer (nid pawb) o'i sylfaenwyr ym 1925. Mae'r blaid hefyd yn glir o blaid annibyniaeth – cysyniad a oedd yn gwbl wrthun i sylfaenwyr cynnar Plaid Cymru.**

**Yn drydydd, cyfyngedig fu llwyddiant etholiadol Plaid Cymru (hyd yn oed gydag eithriadau fel is-etholiad Caerfyrddin). Ar gyfartaledd, 7% yw canran pleidlais gyfartalog Plaid Cymru yn etholiadau San Steffan gyda'r ganran uchaf (14.5%) yn dod yn 2024; mewn etholiadau datganoledig tua un o bob pump (21%) sydd wedi pleidleisio dros Blaid Cymru. Nid yw Plaid Cymru erioed wedi arwain llywodraeth ychwaith.**

**Yn olaf, serch y diffyg llwyddiant etholiadol, Plaid Cymru fu'r lefain yn y blawd cenedlaethol ar ystod anferthol o bynciau ieithyddol, cymdeithasol a hunaniaethol. Hoffi hi ai peidio, mae ei dylanwad ar gymdeithas a phleidiau eraill wedi bod yn llawer, llawer mwy na'i phwysau yn y glorian etholiadol. Dyma hanfod paradocs Plaid Cymru.[6]**

**Wrth edrych yn ôl ar 1925, mynegodd golygydd Baner ac Amserau Cymru yn iasol-broffwydol fel hyn wrth gau pen y mwdwl ar y flwyddyn. Caiff ef y gair olaf gan fod ei asesiad mor berthnasol nawr ag yr oedd bryd hynny, nid yn unig i Blaid Cymru ond i weddill gwleidyddiaeth Cymru:**

**'Yr ydys yn byw mewn oes o chwilio a chwalu, ac nid oes a ŵyr eto pa ryw lun a fydd ar gymdeithas wedi y cwblhaer y gweadwaith newydd. Ni saif yr un blaid wleidyddol yn ei hunfan; ni phwysir yn sefydlog ar yr hen ddogmâu, am fod problemau a meddwl yr oes yn eu gorfodi i'w llunio eu hunain o'r newydd...'**


Secondly, Plaid Cymru is a party of the Left – at odds with the right-wing ideology of many (not all) of its founders in 1925. The party is also clearly in favour of independence – a concept that was anathema to its founders.

Thirdly, Plaid Cymru's electoral success has been limited (even with exceptions such as the Carmarthen by-election). On average, Plaid Cymru's percentage vote in Westminster elections is 7% with the highest percentage (14.5%) coming in 2024; in devolved elections around one in five (21%) have voted for Plaid Cymru. Plaid Cymru has never led a government either.

Finally, despite the lack of electoral success, the party has been an agent of significant change across a number of linguistic, social and identity issues at national level. Like it or not, its influence on society and other parties has been far, far greater than its electoral success. This is the essence of the Plaid Cymru paradox.[6]

Looking back on 1925, the editor of Baner ac Amserau Cymru included the following shrewd assessment in his round-up of the year. He shall have the last word, because it is as relevant now as it was then, not only for Plaid Cymru but for the rest of Welsh politics:

'We live in an age of search and destroy, and it is not yet known what society will look like after the new fabric is completed. No political party stands still; the old dogmas are not relied upon with permanence, because the problems and opinions of the age force them to reinvent themselves...'




Welsh Political Ephemera Collection C1/5/26.

Archif Plaid Cymru 0255







Welsh Political Ephemera Collection A4/1

**Mae Rhys Evans yn hanesydd a darlledwr. Fe yw awdur y cofiant arobryn i Gwynfor Evans, 'Gwynfor: Rhag Pob Brad'. Mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig ac mae'n Is-gadeirydd ar Amgueddfa Cymru.**

Rhys Evans is an historian and broadcaster. He is the author of the award-winning biography of Gwynfor Evans, 'Gwynfor: Portrait of a Patriot'. He is a member of the Welsh Political Archive Advisory Committee and is also Vice-chair of Amgueddfa Cymru.

[6] *Baner ac Amserau Cymru*, 31.12.25

# ARCHIF CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

**GAN EMMA TOWNER**

**Ychydig dros ganrif yn ôl (a hyd heddiw hyd yn oed), pur anaml y câi'r dosbarth gweithiol gyfleoedd i barhau ag addysg, a byddai llawer o blant yn gadael yr ysgol pan oeddent tua 14 oed. Byddent yn mynd i weithio mewn pyllau glo, chwareli, ac mewn plastai er mwyn cefnogi eu teuluoedd. Bu rhai ymdrechion i roi addysg i'r gweithwyr mewn gwersi University Extension, ac er i rai lwyddo, methiant fu'r mwyafrif ohonynt. Newidiodd popeth pan, yn 27 oed, cafodd Albert Mansbridge fenthyciad o 2/6d gan ei wraig, Frances, i wireddu ei weledigaeth i roi addysg i'r dosbarth gweithiol, ac yn 1903 sefydlwyd The Workers Educational Association (WEA). Cafodd ei lansio yng nghyfarfod Oxford Extension Summer ym mis Awst y flwyddyn honno, dan yr enw The Association to Promote the Higher Education of Working Men, ond newidiwyd yr enw yn 1905 rhag pechu'r Co-operative Women's Guild. Sefydlwyd y Gangen Gymreig gyntaf yn y Barri ym 1907 ac erbyn diwedd 1914 roedd 12 ohonynt ar draws De Cymru.**

**Mae eleni'n nodi canmlwyddiant sefydlu Cangen Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr ym 1925. Fe'i sefydlwyd gan Robert ''Silyn'' Roberts gyda chefnogaeth ei wraig Mary. Pan fu farw Silyn ym 1930, gofynnodd Pwyllgor Gogledd Cymru i Mary ddod yn Ysgrifenyddes Ardal Gogledd Cymru. Derbyniodd y swydd, a hi oedd y fenyw gyntaf yng Nghymru (ac o bosibl y Deyrnas Unedig) i fod mewn swydd o'r fath.**

**Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd ym 1939, ni thawelodd gwaith Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, a gwaith Mary oedd canfod ffyrdd o sicrhau y gallai tiwtoriaid deithio i ddosbarthiadau mewn cyfnod o brinder petrol. Roedd 'hi'n gefnogol i'r WEA a chynigiodd ostyngiad cyflog oherwydd y pwysau ariannol. Parhaodd i fod yn Ysgrifenyddes Ardal am 15 mlynedd, nes i C. E. Thomas ddod i'r swydd ym 1945.**

**Oherwydd eu diddordeb ym mywyd Mary, denwyd sylw Angharad Tomos, Iona Price a Luned Meredith at yr Archif. Pan ddaeth yr archif i Fangor yn 2020, fe gawson nhw fynediad iddi a buont yn archwilio ei chynnwys am y 18 mis dilynol. Gan fod rhan helaeth o'r cyfnod hwn yn ystod Pandemig Covid, rhoddwyd caniatâd arbennig iddyn nhw fynd â'r blychau hyn adref gyda nhw fesul tipyn. Rhoddodd y tair ddarlun cliriach a gwerthfawr o gynnwys yr archif, a thynnu sylw at y cynnwys pwysicaf a difyrraf yn eu barn nhw.**

# THE WORKERS' EDUCATIONAL ASSOCIATION ARCHIVE


**BY EMMA TOWNER**

Just over 100 years ago (and still even now) the working class seldom had the opportunity to pursue an education with many children leaving school at around 14 years. They would go and work in mines, quarries and stately homes as they needed to support their families. There were some attempts to provide education for these workers through University Extension classes, and whilst some were successful, the majority were not. Everything changed when a 27 year old Albert Mansbridge was given a loan of 2/6d by his wife Francis to fulfil a vision he had of providing an education to the working class, and in 1903 The Workers Educational Association (WEA) began. It was launched at the Oxford Extension Summer meeting in August of that year under its original name The Association to Promote the Higher Education of Working Men, however, to partly avoid offending the Women's Co-operative Guild, the name was changed in 1905. The first Welsh Branch was established in Barry in 1907 and by the end of 1914 there 12 across South Wales.

This year marks the centenary of the establishment of the WEA North Wales Branch in 1925. It was founded by Robert 'Silyn' Roberts with the support of his wife Mary. When Silyn passed away in 1930, Mary was asked by the North Wales Committee to become the North Wales District Secretary. She accepted the role and became the first woman in Wales (and possibly the United Kingdom) to be in such a role.

When the Second World War broke out in 1939, the work of the WEA did not stop, and Mary was tasked with finding ways of ensuring that tutors could still travel to classes during a petrol shortage. She was supportive of the WEA and proposed a wage reduction due to the financial pressures. She stayed as District Secretary for 15 years until C. E. Thomas took over the role in 1945.

It was an interest in Mary's life that drew the attention of Angharad Tomos, Iona Price and Luned Meredith to the Archive. When it arrived in Bangor in 2020, they were given access it, and explored its contents, which they did over the 18 months that followed. As the majority of this time was during the Covid Pandemic, special permission was given to take these boxes home a few at a time. They provided valuable insights to what the Archive held, and drew attention to some of the contents that they believed were important and interesting.



RS' EDUCATIONAL
ORTH WALES DIS
INUTES OF THE
PROVISIONAL CO
, 1925.
ting the T.& G.W.
R.C.A.
N.U.R.
G.S.T.C.
U.P.W.
N.U.T.
N.W.M.A.
A.A.M.
Guild of Grad
Colwyn Bay Bra
Holyhead "
Bangor "
Llandudno "
.C.N.W.
do.
do.
lo.
been re
G.H.Edw

Daeth yr Archif hon i'r Llyfrgell yn 2022, ac ym mis Rhagfyr 2024 sicrhaodd y Llyfrgell gyllid gan Gronfa Tudor Bowen Jones o Addysg Oedolion Cymru i alluogi catalogydd i dreulio blwyddyn yn catalogio a darparu mynediad 'i'r casgliad hwn.

Mae'r Archif yn rhychwantu degawdau, ac yn cynnwys hanes Cangen Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr ers iddi gael ei sefydlu. Mae'n cynnwys gohebiaeth, adroddiadau, cofrestrau dosbarthiadau, traethodau gan fyfyrwyr, cyhoeddiadau, mapiau, ffotograffau a deunydd o ddiwedd y 1890au. Pan gaiff ei chatalogio, gall fod o ddiddordeb mawr i haneswyr lleol ledled gogledd Cymru. Byddai'n ddefnyddiol iawn i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg, yn enwedig addysg oedolion yng Nghymru.

This Archive came to the Library in 2022, and in December 2024 the Library secured funding from the Tudor Bowen Jones Fund of Adult Learning Wales to enable a cataloguer to spend a year cataloguing and providing access to this collection.

The Archive spans decades, and contains the history of WEA's North Wales Branch from its creation. It contains correspondence, reports, class registers, essays from students, publications, maps, photographs and material from the late 1890s. Once catalogued it could be of interest to local historians across north Wales. It would be highly useful to anyone with an interest in education, especially adult education in Wales.


The Workers' Educational Association

A FEDERATION OF NEARLY 2,000 EDUCATIONAL AND WORKERS' ORGANISATIONS
(FOUNDED 1903) UNSECTARIAN AND NON-PARTY IN POLITICS

President : R. H. TAWNEY
Vice-Presidents : A. D. LINDSAY, Master of Balliol; HAROLD CLAY; J. H. NICHOLSON; HORACE NOBBS; Mrs. J. L. STOCKS, J.P.; A. CREECH JONES, M.P.
Hon. Treasurer : J. J. MALLON, J.P.
Telephone No.: Victoria 5715-6
Telegrams : Edulabasso, Phone, London
Founder : ALBERT MANSBRIDGE
Education Officer : HAROLD SHEARMAN, M.A.
General Secretary : ERNEST GREEN, J.P.
Central Office : 38a, ST. GEORGE'S ROAD, VICTORIA, LONDON, S.W.1.

EG/WAC.WEA.

TO BRANCH SECRETARIES. 29th August, 1939.

Dear Colleague,

SPECIAL ARRANGEMENTS FOR CENTRAL OFFICE.


In the event of war being declared, all communications should be addressed to :

Mr. Ernest Green,
General Secretary, W.E.A.,
95, Manor Road North,
Esher, Surrey.

as a skeleton staff will be operated from that address and the rest of the staff will be distributed in such a way that contact could be maintained. This does not mean that the Office would be closed immediately, but is a precaution in case of possible air raids on London and the difficulties of the staff in travelling from their homes and the fact that the office premises have been architecturally condemned as being unsuitable for shelter provision. Until real danger, letters will be brought up from my home address to the Office, but when things became impossible the correspondence would be carried on from my home and from Mr. Shearman's address where he, also, will have a skeleton staff, and we live sufficiently near to be in constant contact with each other.

Yours sincerely,

Ernest Green
GENERAL SECRETARY.


22 College Road
Bangor.
25 July 1940

Dear Principal Morgan Jones,

It is 10 years since Silyn passed on and the Annual Meeting will bring to a close the 10th Session of my work as secretary to the North Wales District.

I want to thank the executive committee and those who 10 years ago were associated with it in granting me the privilege of doing work which of all else would have been my first choice had I had an opportunity of choosing. These have been intensely happy years; full of anxiety, it is true. Each year seem to produce its own particular crop of difficulties, but each brought friends willing and even anxious to render aid. As I look back upon the 10 years, I realise how great an honour and privilege it was to be allowed to carry on this part of work in Adult Education, so near to Silyn's heart and so essential, as he realised, to the development of the extramural work of the Colleges. Nor am I unmindful of the courage of the executive in making the appointment at a time when the financial resources of the District, young as it was then, were wholly inadequate for such a venture and I beg you, therefore, to convey to the committee and to those members of the W.E.T.M.C. at whose suggestion my name was put forward, my heartfelt gratitude.

After 10 years of progressively increasing kindnesses and helpful cooperation coming as it does from thinking people of all ranks and in face of increasing difficulties, I can still say there is no type of work which could give

Workers' Educational Association (North Wales) Archive

Ar hyn o bryd mae Emma Towner yn gweithio fel Archifydd Prosiect ar Brosiect Cymdeithas Addysg Gweithwyr Gogledd Cymru. Mae ei gwaith blaenorol wedi cynnwys catalogio Sgriptiau'r BBC ar gyfer Archif Ddarlledu Genedlaethol Cymru ac adfer ffilmiau archifol ar gyfer Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hi hefyd yn ymgeisydd PhD mewn Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda'i gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar arfarnu archifau delweddau symudol.

Emma Towner is currently working as the Project Archivist on the North Wales Workers Educational Association Project. Her previous work has included cataloguing BBC Scripts for the National Broadcast Archive of Wales and restoring archival film for the National Library of Wales Screen and Sound Archive. She is also a PhD candidate in Librarianship at Aberystwyth University with research focusing on the appraisal of moving image archives.




## ADOLYGU DISGRIFIADAU ARCHIFOL

**GAN MIIDONG DALOENG**

Mae archifo, fel sawl proffesiwn arall, yn cael ei lywodraethu gan reolau, safonau ac egwyddorion. Mae'r ddadl dros y drefn hon yn ymwneud ag arferion gorau mewn cadwraeth hanes, trefn, a rhwyddineb mynediad ac adfer gwybodaeth i'r rhai sy'n defnyddio'r archif.

O ystyried bod natur pob archif yn ddeinamig ac yn unigryw, ni allwn fychanu'r angen am bwynt mynediad unffurf. Felly, y cwestiwn a ofynna archifwyr wrth gatalogio cofnod newydd yw: Sut allwn ni sicrhau y gall ein cleientiaid ganfod a defnyddio'r adnoddau hyn yn hwylus?

Dywedir fod archif heb gatalog yn archif heb lais—yn llawn straeon na all neb eu clywed—ac mae gwirionedd yn hynny. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd, gwelwyd bod cyfyngiadau yn y catalogau hyn o ran sut disgrifir eitemau, pobl a digwyddiadau. Mae'r cyfyngiadau hyn yn deillio o'r iaith a ddefnyddiwyd pan grëwyd nhw, y rhagfarnau a fodolai, y safonau catalogio a arddelwyd, neu yn syml oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o amrywiaeth y byd.

Y cyfyngiadau hyn sydd wrth wraidd y galw i adolygu disgrifiadau archifol, a hynny gan gofio na all yr un catalog fod yn berffaith, a bod ein hiaith a'n byd yn newid yn gyflym. Teg fyddai dweud bod catalogio'n waith parhaus. Gall adolygu disgrifiadau archifol beri rhai i godi ael a chwestiynu dilysrwydd ein casgliadau, a hynny gan fod metadata (cofnod catalog) pob un o'n heitemau lawn cyn bwysiced â'r eitem ei hun, gan ei fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr eitem, megis ei daith yma, pryd cafodd ei greu, pwy oedd ei berchennog, a llawer mwy.

Pwysig iawn yw nodi nad proses i ddileu neu ddadwneud rhagfarn a gwladychiaeth y gorffennol yw hyn. Yn hytrach, dyma broses sy'n edrych ar y gorffennol a rannwn mewn mwy o fanylder, gwaith sy'n creu sylfaen lle gellir gweld a chlywed pob llais—adrodd straeon gyda charedigrwydd, gwirionedd a dilysrwydd. Mae hyn yn ychwanegu cyd-destun i straeon a allai fod wedi'u creu i ddad-ddyneiddio rhai grwpiau, i dawelu eraill, neu i erydu dynoliaeth unigolion.

Dywedodd Taryn Simon fod archifau'n bodoli oherwydd bod rhai pethau na allwn ni eu mynegi, a bod gan y bylchau rhwng y wybodaeth rywbeth i'w ddweud. Mae'n hollbwysig felly bod y ffordd y disgrifir hwy yn adlewyrchu'r gwir hanes yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag un ochr o'r stori.

## REVISING ARCHIVAL DESCRIPTIONS

**BY MIIDONG DALOENG**

Archiving, like many professions, has been governed by rules, standards and principles. The argument in support of this has always been for best practices in preservation of history, order, and the ease of access and retrieval of information for archive users.

Given that the nature of every archive is dynamic and unique to itself, the need for a uniform access point is not something that can be trivialized. So, the question in any archivist's mind when cataloguing a new record is often: How can we best ensure that these preserved resources can be easily found and used by our clients?

It is often said, and it is true that 'Without catalogues, archives are without a voice —just full of stories, but with no way to hear them.' However, over the years, it has been observed that these catalogues have had limitations in how items, people, and events have been described. These limitations stem from the language used at the time they were created, the prevailing prejudices and biases, the standards that guided cataloguing, or simply a lack of awareness about the diversity of the world.

These limitations have been the reason behind the call for the revision of archival description with the foreknowledge that no catalogue is perfect, language is changing and so is the world; rapidly. It is fair to state that catalogues are a constant work in progress. Revising archival descriptions may raise eyebrows and questions regarding the authenticity of our collections being that the metadata (catalogue entry) of every item in our holdings is as important as the item itself, which is because it provides further information about the item such as where it has travelled to and from, when it was created, who possessed it, and lots more.

It is important to state that this process is not aimed at erasing or undoing the past histories of societal bias and colonialism. In fact, it is a process of taking a closer look at our shared past and creating a foundation where all voices can be seen and heard—telling stories with kindness, truth, and authenticity. It involves adding context to stories that may have been created to dehumanize certain groups, silence others, or diminish the humanity of individuals.

And as Taryn Simon said, if 'Archives exist because there's something that can't necessarily be articulated. Something is said in the gaps between all the information'; then it is necessary that how they are described reflects and tells the whole story truthfully and not just one side of it.

**Miidong Daloeng yw'r Swyddog Dadgoloneiddio Archifau a dechreuodd weithio ar brosiect 2 flynedd yn y Llyfrgell ym mis Ionawr 2023. Mae ganddi radd ôl-raddedig mewn Rheoli Gwybodaeth Ddigidol a'r Cyfryngau (Archifau) o Brifysgol Aberystwyth ac mae ganddi dros bum mlynedd o brofiad yn gweithio mewn sefydliadau dysgu, ymchwil a chyllid.**

Miidong Daloeng is the Archives Decolonisation Officer and began work on a 2 year project at the Library in January 2023. She has a postgraduate degree in Digital Information and Media Management (Archives) from Aberystwyth University and has had over five years' experience working in institutes of learning, research and finance.

# NEWYDDION O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

# NEWS FROM THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

**Datgelodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ei strategaeth newydd feiddgar ar gyfer 2025–2030 ar 20 Mai mewn digwyddiad lansio a oedd hefyd yn cynnig cipolwg ar 'Gornel Clip' newydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.**

**Mae strategaeth newydd y Llyfrgell yn sail i Flaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru, sydd newydd eu cyhoeddi sy'n anelu at wneud etifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru yn fwy hygyrch i genedlaethau'r dyfodol.**

**Agorodd y gofod newydd, a gaiff ei alw'n 'Gornel Clip' yn swyddogol ym mis Mehefin, gan roi mynediad rhad ac am ddim i ffilm, fideo a sain wedi'u digido o Archif Ddarlledu Cymru ac Archif Sgrin a Sain y Llyfrgell.**

**Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â darlledwyr mawr ledled Cymru mae'r archif yn cynnwys mwy na chanrif o ddarllediadau teledu a radio gan BBC Cymru, ITV Cymru, ac S4C.**

**Mae lleoliad y Cornel Clip yng nghanol Bae Caerdydd yn symbol o gynlluniau'r Llyfrgell i wneud ei chasgliadau a'i hadnoddau'n fwy hygyrch, gyda Chorneli Clip eraill eisoes ar agor yn Llanrwst, Caerdydd, Abertawe, Conwy, Caerfyrddin a Chaernarfon; a llawer mwy yn mynd i agor ledled Cymru yn ddiweddarach eleni.**

**Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Llyfrgell i arloesi archifol, gyda chynlluniau ar y gorwel i ehangu ei chasgliadau digidol, ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, a chefnogi mentrau addysg, ymchwil a diwylliannol sy'n dathlu treftadaeth a hunaniaethau Cymru ymhellach.**

**Roedd y digwyddiad lansio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys trafodaeth banel ddeinamig gyda ffigurau dylanwadol, gan gynnwys y darlledwr Dot Davies, y newyddiadurwr Will Hayward, yr arweinydd treftadaeth a'r ymgyrchydd cydraddoldeb Dr Gaynor Legall CBE, ac Eluned Haf, Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Trafododd y panel bwysigrwydd diwylliant a threftadaeth wrth lunio hunaniaeth Cymru mewn byd sy'n esblygu'n gyflym.**

The National Library of Wales revealed its bold new strategy for 2025–2030 on 20 May 2025 at a launch event which also previewed a new 'Clip Corner' at the Wales Millennium Centre.

The Library's new strategy underpins the Welsh Government's newly published Priorities for Culture, which aim to make Wales' rich cultural legacy more accessible for future generations. The new space at the Millennium Centre, known as a 'Clip Corner', officially opened in June, providing free access to digitised film, video, and audio from the Wales Broadcast Archive and the Library's Screen and Sound Archive. With support from the National Lottery Heritage Fund and Welsh Government, and in partnership with major broadcasters across Wales the archive contains more than a century of television and radio broadcasts from BBC Wales, ITV Wales, and S4C.

The Clip Corner's placement in the heart of Cardiff Bay symbolises the Library's plans to make its collections and resources more accessible with other Clip Corners already open in Llanrwst, Cardiff, Swansea, Conwy, Carmarthen and Caernarfon; and many more set to open across Wales later this year.

It also reflects the Library's commitment to archival innovation, with plans on the horizon to expand its digital collections, engage diverse audiences, and further support education, research and cultural initiatives that celebrate Wales' heritage and identities.

The launch event at the Wales Millennium Centre featured a dynamic panel discussion with influential figures including broadcaster Dot Davies, journalist Will Hayward, heritage leader and equalities activist Dr Gaynor Legall CBE, and Eluned Hâf, Head of Wales Arts International. The panel discussed the importance of culture and heritage in shaping Wales' identity in a rapidly evolving world.

# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

## THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
post@llyfrgell.cymru

Oriau Agor Cyffredinol/
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
9:00am – 6:00pm

Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

## THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

Cyhoeddir Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig unwaith y flwyddyn i dynnu sylw at gasgliadau newydd a gwaith yr archif ac mae'n cael ei ddosbarthu i newyddiadurwyr, haneswyr, academyddion, gwleidyddion ac eraill sydd â diddordeb yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt uchod.

Mae ôl-rifynnau o'r cylchlythyr ar gael ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

The Welsh Political Archive Newsletter is produced annually to highlight new collections and the work of the archive and is circulated to journalists, historians, academics, politicians and others who are interested in the history and politics of Wales. If you would like to receive a copy, please let us know using the contact details above.

Back issues of the newsletter are available on the Welsh Political Archive pages of the National Library of Wales website.

www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig
www.library.wales/welshpoliticalarchive

llgcymrunlwales

librarywales

@LLGCymru / @NLWales

Fersiwn Print | Print Version ISSN 2977-2540
Fersiwn Digidol | Digital Version ISSN 2977-2559

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymraeg
Welsh Political Archive

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government